

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

City Skin Doctor, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 20 Tachwedd
2017

Dyddiad cyhoeddi: 21 Chwefror 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@llyw.cymru
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Beth nesaf?	21
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	23
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	25

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o City Skin Doctor, 225 Heol y Ddinas, Caerdydd, CF24 3JD ar 20 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn derbyn gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl cael triniaeth
- Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Mae'r gwasanaeth yn lân, yn dachus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar eu triniaeth ac ar y gwasanaeth a ddarperir.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddaru'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Diweddariadau i rai polisïau a gweithdrefnau
- Sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â'r rheolau lleol
- Rhai trefniadau ar gyfer dogfennu ac ardystio hyfforddiant staff.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae City Skin Doctor wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol am ei fod yn darparu triniaeth gyda laser Dosbarth 3B/4 yn 225 Heol y Ddinas, Caerdydd CF24 3JD.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 2 Mehefin 2016.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig a dau weithredwr laser.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddefnyddio laser Fontana SP Dynamics i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion sy'n hŷn na 18:

- Gwaredu gwallt
- Adfywio a thynhau'r croen
- Triniaeth laser i lyfnhau'r wyneb
- Acne a chreithiau
- Gwythiennau chwyddedig a gwythiennau edau
- Lipolysis a seliweith
- Chwyrnu
- Haint ffwngaid ar yr ewinedd
- IntimaLase ac Incontilase
- Gwaredu nam i'r croen
- Olion ymestyn
- Dafadennau

a'r triniaethau canlynol i gleifion 13–17 oed

- Gwaredu gwallt
- Acne a chreithiau

- Gwythiennau chwyddedig a gwythiennau edau
- Lipolysis laser anwthiol
- Haint ffwngaid ar yr ewinedd
- Gwaredu nam i'r croen
- Olion ymestyn
- Dafadennau.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir, ac roedd y tîm wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn ffordd urddasol a phreifat.

Canfuom fod cleifion yn derbyn gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl cael triniaeth er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu gofal.

Roedd angen i'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben gael eu diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd angen rhoi proses ar waith i gofnodi canlyniad math o groen y claf.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael safbwyntiau cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 17. Roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, a nododd cleifion fod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar eu cyfer yn rhagorol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth rhagorol, staff proffesiynol iawn, hapus gyda fy nhriniaeth".

"Gwasanaeth da iawn, yn lân ac yn daclus iawn, rydw i bob amser yn teimlo'n gyfforddus pan rwy'n dod yma. Mae cyngor ynghylch gofal ôl-driniaeth yn cael ei roi bob tro imi gael triniaeth"

Mae'r meddyg ac aelodau staff eraill yn barod iawn eu cymwynas ac yn broffesiynol, ac wir yn eich gwneud yn dawl eich meddwl. Rydw i'n teimlo'n gyfforddus iawn yma"

"Staff cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol iawn"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod gofyn i gleifion gwblhau ffurflen am eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth gychwynnol, a gofynnwyd iddynt gadarnhau a llofnodi pob apwyntiad dilynol a fu unrhyw newidiadau ai peidio, i gefnogi'r gwasanaeth i ddarparu triniaeth mewn ffordd ddiogel.

Urddas a pharch

Heb eithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn cytuno'n gryf bod staff bob amser yn gwrtais, yn garedig ac yn sensitif wrth ymgymryd â gofal a thriniaeth. Dywedwyd wrthym hefyd bod cyfleusterau newid ar gael i gleifion, ac roedd tywelion er cadw urddas ar gael yn ôl yr angen, er mwyn cynnal urddas cleifion.

Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn ystafell breifat, er mwyn sicrhau y gallai gwybodaeth gyfrinachol a phersonol gael ei thrafod heb gael ei chlywed.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Gwelsom fod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Roedd hyn oherwydd bod cleifion yn derbyn ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn triniaeth â'r rheolwr cofrestredig. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys risgiau, buddion, a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig. Dywedwyd wrthym fod yr holl gleifion yn derbyn prawf clwt cyn y driniaeth a'u bod yn derbyn cyngor ôl-driniaeth, a gwelsom enghreifftiau o wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i gleifion. Gwnaeth pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur gytuno'n gryf ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth gan y staff.

Gwelsom fod cydsyniad i driniaeth yn cael ei gasglu wrth gleifion cyn pob apwyntiad. Roedd yr wybodaeth hon yn cael ei chofnodi mewn ffurflen a oedd yn darparu gwybodaeth ynghylch risg a buddion y driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth. Gwelsom fod angen diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau. Roedd angen gwneud diweddariadau er mwyn cynnwys y dulliau o dalu a oedd ar gael i gleifion a chrynodeb o adborth cleifion.

Roedd datganiad o ddiben ar gael, ond gwelsom fod angen i hwn gael ei adolygu a'i ddiweddarau hefyd yn unol â'r rheoliadau. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cipio'r wybodaeth ganlynol; enw a manylion cyswllt y rheolwr cofrestredig, cymwysterau a phrofiad y rheolwr cofrestredig a'r holl staff, a strwythur sefydliadol y gwasanaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth yn unol â'r rheoliadau, a darparu copïau i AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym fod yr holl gleifion yn derbyn apwyntiad ymgynghorol cyn dechrau triniaeth, a chanfuom dystiolaeth o hyn o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom eu harchwilio. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys asesiad ar y math o groen; fodd bynnag, nid oedd canlyniad yr asesiad hwn yn cael ei gofnodi. Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig gofnodi canlyniad asesiad math o groen y claf. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a dogfennau ôl driniaeth (a oedd yn cynnwys risgiau a buddion triniaeth) a gwnaethom drafod y canllawiau sy'n cael eu trafod â'r cleifion yn ystod y cyfnod ymgynghori, sydd hefyd yn cynnwys trafodaeth am y peryglon a'r buddion.

Gwelsom fod nodiadau cleifion unigol ar gael a oedd yn cynnwys manylion perthnasol a hefyd cofrestr triniaeth gyffredinol yn cael ei chadw a oedd yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i sicrhau bod unrhyw asesiad o groen claf yn cael ei gofnodi.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Nid oedd yr ystafell driniaeth a oedd yn cael ei defnyddio at ddefnydd y peiriant laser yn hygyrch i bobl a oedd yn defnyddio cadeiriau olwynion na'r rheini sydd ag anawsterau symudedd oherwydd roedd angen dringo grisiau i'w chynnal. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai cleifion yn cael eu hysbysu am hyn dros y ffôn wrth drafod trefnu apwyntiad cychwynnol er mwyn hysbysu cleifion cyn iddynt drefnu apwyntiad.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd cleifion yn gallu darparu adborth am y gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy gyfrwng llyfr sylwadau yn y dderbynfa. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai'n ystyried y sylwadau yr oedd yn eu derbyn ac yn ymateb yn unol â hynny. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod crynodeb o'r adborth hwn yn cael ei gynnwys yng nghanllawiau'r cleifion yn unol â'r rheoliadau.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, canfuom fod cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod trefniadau ar waith i ddiogelu cleifion, staff a'r sawl a oedd yn ymweld â'r adeilad.

Roedd angen cadarnhau rhywfaint o drefniadau ynghylch diogelwch tân.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i rai polisïau a gweithdrefnau.

Mae'n rhaid i staff lofnodi'r rheolau lleol er mwyn sicrhau eu bod wedi eu darllen a'u deall, a rhaid cynnwys unrhyw drefniadau wrth gefn.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad. Gwelsom dystiolaeth fod profion dyfeisiau cludadwy yn gyfredol er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Ar ôl yr arolygiad, darparwyd tystysgrifau i ddangos bod y gwiriad o ran gwifro yn yr adeilad yn gywir.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Dangosodd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân. Roedd asesiad risg tân ar waith, a gafodd ei asesu diwethaf ym mis Mai 2016. Atgoffir y rheolwr cofrestredig y dylai hyn gael ei adolygu'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau diogelwch tân¹, a bob amser ar ôl unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r adeilad. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant tân wedi'i gynnal gan y rheolwr cofrestredig, ond nid oedd tystysgrif ar gael ynghylch hyn. Cawsom wybod bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn wythnosol, ond nad oeddent yn cael eu cofnodi. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn cofnodi ac yn dogfennu hyfforddi sy'n cael ei ddarparu i staff a hefyd yn nodi pa bryd mae'r ymarferion tân yn cael eu cynnal.

Gwelwyd bod gan y gwasanaeth fynediad at offer cymorth cyntaf, a gwnaethom ganfod bod y cynnwys o fewn eu dyddiad dod i ben ac yn addas at y diben. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd neb wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf yn y gwasanaeth. Gwnaethom argymhell y dylid cael cyngor wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch² ynghylch yr angen am bobl sy'n gymwys mewn cymorth cyntaf a'r hyfforddiant priodol sy'n ofynnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg tân yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr hyfforddiant diogelwch tân ar gyfer staff ac ymarferion tân yn cael eu cofnodi.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Canfuom fod yr adeilad yn ôl pob golwg yn lân ac yn daclus. Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion gan gleifion ynghylch glendid yr adeilad; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn credu'n gryf bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

¹ <https://www.gov.uk/workplace-fire-safety-your-responsibilities/fire-risk-assessments>

² <http://www.hse.gov.uk/firstaid/index.htm>

Gwnaeth y gwasanaeth ddisgrifio'r trefniadau rheoli heintiau yn fanwl yn y gwasanaeth. Gwelsom fod amserlen lanhau yn cael ei chadw, fodd bynnag nid oedd yn cynnwys yr holl fanylion y soniwyd amdanynt ar lafar gan y rheolwr cofrestredig. Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r amserlenni glanhau er mwyn sicrhau bod yr holl weithgareddau glanhau yn cael eu cofnodi'n llawn.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu gwastraff clinigol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion sy'n 13 oed neu'n hŷn (ar gyfer rhai triniaethau); mae triniaethau eraill ar gael ar gyfer cleifion sy'n 18 oed neu'n hŷn yn unig.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisiau diogelu plant ac oedolion ar waith. Roedd angen i'r ddau bolisi gael eu diweddarau i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu'r cyngor lleol, a hefyd i gynnwys mwy o fanylion proses ddiogelu'r gwasanaeth ei hun. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn. Nid oeddem yn gallu gweld tystysgrifau i ddangos bod y rheolwr cofrestredig na'r gweithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant mewn diogelu. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi cwblhau hyfforddiant, ond nid oedd y tystysgrifau ar gael. Dywedwyd wrthym hefyd fod y rheolwr cofrestredig wedi cynnal hyfforddiant mewn diogelu ar gyfer y gweithredwyr laser ond nid oedd wedi cael ei gofnodi. Gwnaed argymhelliad ynghylch gofynion hyfforddi a dogfennaeth dan adran Rheoli ac Arweinyddiaeth yr adroddiad.

Dywedwyd wrthym na fyddai triniaethau'n cael eu darparu i gleifion sy'n iau na 18 oed ond ar yr amod bod ganddynt gydsyniad wrth y claf a rhiant/gwarcheidwad. Byddai'r gwasanaeth hefyd yn ei wneud yn ofynnol i'r rhiant neu'r gwarcheidwad fod yn bresennol yn ystod triniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisiau diogelu i gynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r cyngor lleol, a sicrhau bod y broses ddiogelu yn benodol i'r gwasanaeth.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y rheolwr cofrestredig wedi derbyn hyfforddiant ynghylch defnyddio'r peiriant laser. Dywedwyd wrthym gan y rheolwr cofrestredig ei fod wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer y gweithredwyr laser ynghylch defnyddio'r peiriant. Nid oeddem yn gallu gweld dogfennaeth ynghylch manylion yr hyfforddiant a ddarparwyd. Gwnaed argymhelliad

ynghylch gofynion hyfforddi a dogfennaeth dan adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad. Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ynghylch Craidd Gwybodaeth³ o fewn y tair blynedd diwethaf.

Gwelsom fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau⁴ ac roedd rheolau lleol a oedd yn nodi sut i weithio'r peiriannau mewn ffordd ddiogel. Cafodd y rheolau hyn eu hadolygu'n ddiweddar gan yr Ymgynghorydd diogelu rhag laserau; fodd bynnag, nid oeddent wedi cael eu llofnodi gan staff. Gwnaethom atgoffa'r rheolwr cofrestredig bod angen i'r holl staff sy'n defnyddio'r peiriant laser lofnodi'r rheolau lleol er mwyn cadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Nid oedd y rheolau lleol yn cynnwys manylion ynghylch cynlluniau wrth gefn na'r hyn ddylid ei wneud pe bai unrhyw ddamwain neu anaf. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys yr wybodaeth hon.

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y peiriant laser wedi'i wasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf, a gwelsom hefyd dystiolaeth o wiriadau dyddiol a oedd yn cael eu cynnal ar y peiriant er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gwelsom fod protocolau triniaethau ar waith am ddefnydd y peiriant laser, a oedd wedi'i ddarparu gan y gweithgynhyrchydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob gweithredwr laser wedi darllen a llofnodi'r rheolau lleol i ddangos eu bod yn eu deall.

Rhaid i'r rheolau lleol gael eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys cynlluniau wrth gefn ynghylch beth i'w wneud pe bai digwyddiad neu ddamwain.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

³Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

⁴Y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yw rhywun sydd â medr digonol mewn gwybodaeth a phrofiad o faterion perthnasol ynghylch diogelwch laser, ac sy'n gallu darparu cymorth proffesiynol priodol mewn nodi peryglon, asesu peryglon ac wrth gynnig unrhyw reolau a gweithdrefnau diogelu angenrheidiol.

Dywedwyd wrthym fod yr ystafell driniaeth yn cael ei chloi yn ystod triniaeth, a gwelsom arwyddion rhybuddio y tu allan i'r drws i ddangos eu bod yn defnyddio'r peiriant laser. Dywedwyd wrthym fod yr allweddi yn cael eu tynnu o'r peiriant pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio a'u storio'n ddiogel, a fyddai'n helpu i atal defnyddio'r peiriant yn anfwriadol, ac felly'n hyrwyddo diogelwch y cleifion a'r staff.

Gwelsom fod amddiffynwyr llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr laser. Wrth eu harolygu, roedd yn ymddangos bod yr amddiffynwyr llygaid mewn cyflwr da.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau wedi ymweld â'r lleoliad yn ddiweddar ac wedi cwblhau asesiad risg cyfredol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Canfuom fod y gwasanaeth yn cynnal amrediad cyfyng o weithgareddau gwella ansawdd, a oedd yn cynnwys adolygu adborth wrth gleifion ac adolygu holiadur meddygol y cleifion yn ddiweddar. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno rhaglen ehangach o weithgareddau gwella ansawdd, a chadw cofnod o'r rhain i ddangos y gwaith sydd ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno rhaglen ehangach o weithgareddau gwella ansawdd a datblygu cynlluniau gweithredu o ganlyniad i unrhyw welliannau a nodwyd.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod darpariaeth dda ar gyfer diogelu nodiadau cleifion a'u data, a'u bod yn cael eu cadw'n ddiogel o fewn cwpwrdd dan glo er mwyn atal mynediad gan unrhyw un heb awdurdod.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod City Skin Doctor yn cynnwys tîm bach, effeithiol a oedd â strwythur rheoli effeithiol ar waith.

Roedd trefniadau priodol ar waith ynghylch recriwtio.

Gwnaethom argymhell y dylid gwella'r trefniadau ar gyfer dogfennaeth hyfforddiant ac y dylid cynnal arfarniadau staff.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae City Skin Doctor yn cael ei reoli gan y rheolwr cofrestredig ac yn eiddo iddo. Mae'r rheolwr cofrestredig yn cael ei gefnogi gan ddau weithredwr laser.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiâu ar waith, yr roedd angen diweddarau rhai ohonynt. Dywedwyd wrthym y byddai staff yn cael eu hysbysu yn ystod cyfarfodydd tîm am unrhyw newidiadau i bolisiâu neu weithdrefnau er mwyn sicrhau y byddent yn cael eu hysbysu am yr arferion gwaith mwyaf cyfredol. Gwnaethom argymhell y dylai polisiâu gynnwys rhif fersiwn a dyddiad adolygu, fel bod y staff yn gallu cael hyd i'r polisi mwyaf cyfredol.

Dywedwyd wrthym fod y cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ar sail anffurfiol. Gwnaethom argymhell efallai y byddai'r rheolwr cofrestredig yn dymuno cadw cofnodion ffurfiol o'r cyfarfodydd ar gyfer y sawl efallai na fyddent yn bresennol, a/neu er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth weithdrefn gŵynion ar waith, yr oedd angen ei diweddarau er mwyn iddi gynnwys mwy o fanylder. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r weithdrefn er mwyn cynnwys amserlenni i gydnabod ac ymateb i gŵynion, gan gynnwys enw'r unigolyn y gallai cleifion gysylltu ag ef pe baent am wneud cwyn. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal cofnod o gŵynion yn electronig, gydag amlinelliad cryno o gŵyn yn cael ei gadw ar bapur. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn adolygu'r broses hon i sicrhau bod y cofnodion papur a'r rhai electronig yn gyson fel bod gan staff fynediad llawn at yr holl wybodaeth berthnasol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r weithdrefn gwyno.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y crybwyllwyd yn gynharach o fewn yr adroddiad, gwelsom fod tystysgrifau ar gael ar gyfer rhai pynciau hyfforddi i staff, gan gynnwys Gwybodaeth Graidd. Er ein bod yn gallu gweld log hyfforddi ar gyfer staff, nid oeddem yn gallu gweld tystysgrifau ar gyfer rhywfaint o'r hyfforddiant a gwblhawyd am eu bod naill ai wedi cael eu rhoi yn rhywle arall, nid oeddent wedi cael eu darparu gan ddarparwr yr hyfforddiant neu nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cynnal a chadw cofnod o'r hyfforddiant mewnol a ddarparwyd. Er mwyn dangos bod y staff a'r rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, gwnaethom argymhell y dylai tystysgrifau hyfforddi gael eu cadw gan y gwasanaeth a dylid sicrhau bod unrhyw hyfforddiant mewnol yn cael ei gofnodi'n drwyadl er mwyn dangos y meysydd yr ymdriniwyd â nhw. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd arfarniadau staff ar waith ar hyn o bryd. Gwnaethom argymhell y dylai'r broses hon gael ei rhoi ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gadw tystysgrifau hyfforddi perthnasol i staff a sicrhau bod unrhyw hyfforddiant mewnol yn cael ei gofnodi'n fanwl er mwyn dangos yr hyfforddiant a ddarparwyd.

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno proses arfarnu i staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod gan y gwasanaeth raglen gynefino fanwl ar waith ar gyfer staff newydd, er mwyn eu helpu i'w cefnogi mewn rôl newydd. Gwelsom hefyd fod gan y gwasanaeth proses recriwtio gadarn ar waith ynghyd â'r gwiriadau priodol cyn-gyflogaeth. Gwelsom fod gan y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol.

O ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir gweld tystiolaeth o welliant amlwg yn y maes hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: City Skin Doctor

Dyddiad yr arolygiad: 20 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr yn unol â'r rheoliadau a dylid anfon copïau at AGIC.	18. Cyfathrebu'n effeithiol	Bydd y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn cael eu hadolygu yn eu cyfanrwydd a'u diweddarau gyda manylion ynghylch amserlen o ran delio gyda chŵynion a gwybodaeth ehangach ynghylch y gwasanaethau a ddarperir.	Dr. Ebrahim Feghenaby	31/01/2018
Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i sicrhau bod unrhyw asesiad o groen claf yn cael ei gofnodi.	8. Cynllunio a darparu gofal	Gwnaethom ail-ddylunio ein ffurflenni cydsyniad am driniaeth gan nodi'n glir dosbarthiad Fitzpatrick y croen.	Dr. Ebrahim Feghenaby	Cwblhawyd ar 01/12/17

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg tân yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.	22. Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd	Dylid adolygu a diweddarau'r asesiad risg tân yn rheolaidd bob blwyddyn.	Dr. Ebrahim Feghenaby	01/01/18
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant diogelwch tân ar gyfer staff ac ymarferion tân yn cael eu cofnodi.	4. Trefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng	Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant gloywi ar amddiffyn plant a'r weithdrefn gwacáu.	Dr. Ebrahim Feghenaby	Cwblhawyd ar 15/12/17
Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisïau diogelu i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu'r cyngor lleol, a sicrhau bod y broses ddiogelu yn benodol i'r gwasanaeth.	11. Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed	Mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau cwrs hyfforddi ar lein ar ddiogelu plant ac oedolion. Mae angen diweddarau'r canllawiau i gynnwys manylion cyswllt Caerdydd: 029 2233 0888 oriau gwaith yn ogystal â'r tu allan i oriau gwaith: 029 2078 8570. Mae angen addasu'r holl bolisi i ymdrin ag arbenigedd y gwasanaeth.	Dr. Ebrahim Feghenaby	Cwblhawyd ar 15/12/17
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob gweithredwr laser wedi darllen a llofnodi'r rheolau lleol i ddangos eu bod yn eu deall.	16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau	Rheolau lleol yn cael eu llofnodi a'u hadolygu gan yr holl staff unwaith eto. Maent i gyd yn ymwybodol o'r llawlyfrau	Dr. Ebrahim Feghenaby	Cwblhawyd ar 01/12/17

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	diagnostig meddygol	gweithredu a sut i gofnodi unrhyw anafiadau posibl sy'n ymwneud â laser.		
Rhaid i'r rheolau lleol gael eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys cynlluniau wrth gefn ynghylch yr hyn y dylid ei wneud pe bai damwain neu anaf.		Mae hyn yn cael ei gynnwys yn y rheolau lleol sydd gennym ar waith ar hyn o bryd ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r broses.	Dr. Ebrahim Feghenaby	Cwblhawyd ar 01/12/17
Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno rhaglen ehangach o weithgareddau gwella ansawdd a datblygu cynlluniau gweithredu o ganlyniad i unrhyw welliannau a nodwyd.	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd	Byddwn yn cynnal archwiliadau rheolaidd i adnabod gwendid y gwasanaeth a byddwn yn cynllunio camau pellach i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn unol â chanllawiau lleol a chenedlaethol.	Dr. Ebrahim Feghenaby	Cwblhawyd ar 01/12/17
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r weithdrefn gwyno.	23 Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau	Mae'r weithdrefn bellach yn cynnwys canllaw ar sut i gyflwyno cwyn a hefyd amserlenni a dyddiad cau wrth ymdrin â chwyn (yr ymateb cychwynnol o fewn pythefnos) ar gyfer gwell eglurder.	Dr. Ebrahim Feghenaby	Cwblhawyd ar 01/12/17
Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau a chadw tystysgrifau hyfforddi perthnasol i staff a sicrhau bod unrhyw hyfforddiant mewnol yn cael ei	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a	Rydym wedi gofyn i'r cyrff perthnasol anfon tystysgrifau atom ar gyfer hyfforddiant a ddarparwyd eisoes a	Dr. Ebrahim Feghenaby	Cwblhawyd ar 01/12/17

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gofnodi'n fanwl er mwyn dangos yr hyfforddiant a ddarparwyd.	datblygiad sefydliadol	byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.		
Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno proses arfarnu ar gyfer yr holl staff.		Mae gan yr holl staff ffeil hyfforddi ac arfarnu a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddaf yn sicrhau eu bod yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ac arfarniadau i nodi eu hanghenion addysgol a cheisio eu cyfeirio yn y ffordd briodol er mwyn gwella ansawdd.	Dr. Ebrahim Feghenaby	Cwblhawyd ar 01/12/17

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Ebrahim Feghenaby

Swydd: Cyfarwyddwr

Dyddiad: 22/12/2017